ATODLEN 1

Rheoliadau 13, 15, 20(1), (2), (4) a (5), 21(5), 23(1) a 24(2)

## Gwerthoedd terfyn

### Sylffwr deuocsid

| *Cyfnod cyfartaleddu* | *Gwerth terfyn* |
|---|---|
| Un awr | 350 µg/m$^3$, sef ffigur na ddylid mynd yn uwch nag ef fwy na 24 o weithiau mewn blwyddyn galendr |
| Un diwrnod | 125 µg/m$^3$, sef ffigur na ddylid mynd yn uwch nag ef fwy na 3 gwaith mewn blwyddyn galendr |

### Nitrogen deuocsid

| *Cyfnod cyfartaleddu* | *Gwerth terfyn* |
|---|---|
| Un awr na 18 o weithiau mewn blwyddyn galendr | 200 µg/m $^3$, sef ffigur na ddylid mynd yn uwch nag ef fwy |
| Blwyddyn galendr | 40 µg/m$^3$ |

### Bensen

| *Cyfnod cyfartaleddu* | *Gwerth terfyn* |
|---|---|
| Blwyddyn galendr | 5 µg/m$^3$ |

### Carbon monocsid

| *Cyfnod cyfartaleddu* | *Gwerth terfyn* |
|---|---|
| Y cymedr wyth awr dyddiol uchaf([1]) | 10 mg/m$^3$ |

### Plwm

| *Cyfnod cyfartaleddu* | *Gwerth terfyn* |
|---|---|
| Blwyddyn galendr | 0.5 µg/m$^3$ |

(**1**) Rhaid dewis y crynodiad cymedrig wyth awr dyddiol uchaf o garbon monocsid drwy archwilio'r cyfartaleddau cyfredol wyth awr, wedi eu cyfrifo ar sail data fesul awr ac wedi eu diweddaru bob awr. Rhaid neilltuo pob cyfartaledd wyth awr a gyfrifir felly i'r diwrnod pryd y daw i ben, hynny yw, bydd y cyfnod cyfrifo cyntaf ar gyfer unrhyw un diwrnod yn ymestyn o 17:00 ar y diwrnod blaenorol hyd 01:00 ar y diwrnod hwnnw, a'r cyfnod cyfrifo diwethaf ar gyfer unrhyw un diwrnod fydd y cyfnod rhwng 16:00 a 24:00 ar y diwrnod hwnnw.

**$PM_{10}$**

| *Cyfnod cyfartaleddu* | *Gwerth terfyn* |
|---|---|
| Un diwrnod na 35 o weithiau mewn blwyddyn galendr | 50 $\mu g/m^3$, sef ffigur na ddylid mynd yn uwch nag ef fwy |
| Blwyddyn galendr | 40 $\mu g/m^3$ |

**$PM_{2\cdot5}$**

| *Cyfnod cyfartaleddu* | *Gwerth terfyn* | *Y ffin goddefiant* | *Y dyddiad erbyn pryd y mae'n rhaid cyrraedd y gwerth terfyn* |
|---|---|---|---|
| Blwyddyn galendr | 25 $\mu g/m^3$ | 20% ar 11 Mehefin 2008, ac yn lleihau o ganrannau blynyddol hafal ar 1 Ionawr sy'n dilyn a phob 12 mis ar ôl hynny er mwyn cyrraedd 0% erbyn 1 Ionawr 2015 | 1 Ionawr 2015 |